**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014**

| **Eitem ar yr Agenda** | **Pwnc** | **Penderfyniad** |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Dim. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad sy'n rhagfarnu. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNNIG I GAU YSGOL CLOCAENOG AC YSGOL CYFFYLLIOG AC I SEFYDLU YSGOL ARDAL NEWYDD | ***PENDERFYNWYD,*** *ar ôl ystyried canfyddiadau'r adroddiad sy'n gwrthwynebu'r cynnig, y dylai'r Cabinet gymeradwyo gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 i alluogi ysgol ardal newydd i gael ei hagor ar 1 Medi 2014 gan ddefnyddio safleoedd presennol yng Nghlocaenog a Chyffylliog.* |
| **6** | CYMERADWYO ACHOS BUSNES AR GYFER PROSIECT YSGOL NEWYDD Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer Ysgol Newydd y Rhyl cyn i'r penderfyniad gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.* |
| **7** | MODEL CENEDLAETHOL O WEITHIO'N RHANBARTHOL I WELLA YSGOLION | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol i Wella Ysgolion yn cael ei fabwysiadu a bod cynllun busnes yn cael ei ddatblygu gyda'r bwriad o ymgorffori'r gwasanaethau ychwanegol a restrir yn y Model i mewn i fodel rhanbarthol Gwe, mewn camau, yn amodol ar achos busnes boddhaol ar gyfer pob un a chynllun pontio ategol i sicrhau parhad a pherfformiad y gwasanaeth.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **8** | ADNEWYDDU CYFLEUSTERAU ARFORDIROL YN Y RHYL A PHRESTATYN | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno ar y dull a argymhellir -*<br><br>*(a) mabwysiadu dull 'datblygwr a ffafrir' i ddarparu gwell cyfleusterau twristiaeth a hamdden yn y Rhyl, gan gynnwys Canolfan Ddyfrol newydd ac i wahodd datganiadau o ddiddordeb gan ddatblygwyr i'w hystyried gan y Cyngor;*<br><br>*(b) cynnwys cyfleoedd datblygu yn holl gyfleusterau/tir/asedau'r Cyngor ar hyd Promenâd y Rhyl (Marine Lake i Splash Point) o fewn y gwahoddiad i fynegi diddordeb;*<br><br>*(c) ar yr un pryd, defnyddio cytundeb fframwaith presennol y Cyngor gydag Alliance Leisure i lunio astudiaeth ddichonoldeb busnes fanwl a gwerthusiad o opsiynau dylunio ac adeiladu ar gyfer y Nova;*<br><br>*(d) ymrwymo mewn egwyddor i neilltuo arbedion gweithredol a gynhyrchir o ganlyniad i'r cynigion ailddatblygu i gefnogi cyfraniadau cyfalaf posibl gan y Cyngor tuag at gyflawni'r 'prosiect cyfan', a*<br><br>*(e) cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru i archwilio cefnogaeth i ddull partneriaeth 'arbennig' ar gyfer adfywio arfordirol.* |
| **9** | CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n cynnwys y Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer Rhuthun a Phrestatyn; ac yn* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y tablau ym mharagraffau 4.1 a 4.2 yr adroddiad.* |
| **10** | GADAEL TŶ NANT, PRESTATYN | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r cynnig i adael adeilad Tŷ Nant a'i gynnal mewn cyflwr diogel ac i barhau i farchnata'r adeilad ar gyfer ei brydlesu hyd nes y bydd y briff cynllunio i hwyluso cynllun datblygu tymor hir ar gyfer safle Ffordd Nant Hall.* |
| **11** | CYMERADWYO CYNIGYDD O DDEWIS, A'R AIL GYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU GOGLEDD CYMRU AR Y PROSIECT GWASTRAFF GWEDDILLIOL (PTGGGC) | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cymeradwyo dyfarnu statws Cynigydd o Ddewis i Wheelabrator Technologies Inc (WTI) oherwydd, yn dilyn trafodaethau gyda'r WTI, bod eu Cais am Dendr Terfynol yn werth am arian ar gyfer y bartneriaeth ac, yn dilyn gwerthusiad ariannol, cyfreithiol a thechnegol manwl o'u cais, bod y bartneriaeth yn fodlon ar y cydbwysedd risg arfaethedig gyda'r contract 'Cytundeb Prosiect';*<br><br>*(b) rhoi caniatâd i Gydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r broses - o'r Cynigydd o Ddewis hyd at Gau'n Ariannol, a dyfarnu'r contract;*<br><br>*(c) ymrwymo i'r Bartneriaeth a'r Prosiect drwy fabwysiadu, ynghyd â 4 Cyngor arall, yr egwyddorion yn yr Ail Cytundeb Rhyng-Awdurdod sy'n adlewyrchu termau allweddol y Cytundeb Prosiect sydd i'w wneud rhwng y Cyngor Arweiniol a'r Cynigydd o Ddewis wrth Ddyfarnu'r Contract;*<br><br>*(d) dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr Arweiniol i gwblhau'r Ail Gytundeb Rhyng-* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Awdurdod sydd i'w lofnodi gan yr awdurdodau cyfansoddol, ac i gylchredeg y cytundeb terfynol i Swyddogion Monitro'r 5 Awdurdod er mwyn derbyn barn yr holl Awdurdodau cyfansoddol ac i gyfeirio'r cytundeb yn ôl at y Cydbwyllgor er mwyn iddynt gymeradwyo unrhyw wyriad o'r egwyddorion y cytunwyd arnynt;*<br><br>*(e) cytuno i lofnodi'r Ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod unwaith y bydd wedi ei gwblhau yn unol â'r drefn uchod;*<br><br>*(f) cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig arfaethedig 2013/14 ar gyfer £595,558 (fel y nodir yn Atodiad 5 i'r adroddiad);*<br><br>*(g) cymeradwyo gwariant 2014/15 (£321,066) i fynd â'r broses gaffael gau'r broses gaffael yn ariannol (fel y nodir yn Atodiad 5 i'r adroddiad), a*<br><br>*(h) bod aelodau'r Cydbwyllgor yn cymeradwyo gofynion parhaus cyllideb y prosiect (paragraff 3.5, Atodiad 5).* |
| **12** | LLEOLIAD RHENT CYFRIF REFENIW TAI, CYLLIDEBAU REFENIW A CHYFALAF 2014/15 | ***PENDERFYNWYD -***<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2014/15 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2);*<br><br>*(b) cynyddu rhenti anheddau Cyngor yn unol â chanllawiau Polisi Gosod Rhent Llywodraeth Cymru (4.59% yr wythnos ar gyfartaledd) o ddydd Llun 7 Ebrill 2014;* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(c) cynyddu rhenti garejis y Cyngor yn unol â Rhenti Awgrymedig (4.59% yr wythnos ar gyfartaledd) a chynyddu Taliadau Gwresogi o 7.5% o ddydd Llun 7 Ebrill 2014;*<br><br>*(d) cymeradwyo blaenoriaethau'r rhaglen gyfalaf ar gyfer buddsoddi stoc ar gyfer 2014 - 2019 (Atodiad 3) yn amodol ar ymarfer tendro llawn.* |
| **13** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth a gytunwyd ar gyfer y gyllideb, a*<br><br>*(b) cymeradwyo'r trosglwyddiad canlynol i'r cronfeydd wrth gefn a nodir yn Adran 6 yr adroddiad:*<br><br>• *£66 mil i'r gronfa Cynllunio wrth gefn (ffioedd a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol)*<br>• *£134 mil i Gronfa Newid Sianel (Cwsmeriaid a Chymorth Addysg)*<br>• *£121 mil i Gronfa Addysg y Tu Allan i'r Sir* |
| **14** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |